# Cylchlythyr Demograffeg
# Llywodraeth Cymru, Mehefin 2020

## Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy’n seiliedig ar 2018

Ddydd Llun 18 Mai 2020, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) nodyn ar eu gwefan i roi gwybod i ddefnyddwyr eu bod wedi darganfod gwall sydd yn effeithio ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy’n seiliedig ar 2018. Cyhoeddon nhw ddiweddariad ar eu gwefan ddydd Gwener 22 Mai yn nodi bod y gwall wedi ei achosi gan brosesu mudo rhwng Cymru a Lloegr yn anghywir, gan arwain at amcanestyniad poblogaeth canol-2028 oddeutu 65,000 yn rhy isel yng Nghymru, ac amcanestyniad poblogaeth 65,000 yn rhy uchel yn Lloegr.

Bydd yr ONS yn cyhoeddi amcanestyniadau wedi eu cywiro ar gyfer Cymru erbyn dydd Iau 11 Mehefin, a byddant yn cyhoeddi’r tablau crynodeb cyfan erbyn diwedd mis Mehefin.

Yn dilyn ymgynghori gyda’n grŵp arbenigol am y goblygiadau i’n cynnyrch ystadegol sydd yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy’n seiliedig ar 2018, rydym wedi penderfynu tynnu’r allbynnau canlynol ar gyfer Cymru gan nad ydyn nhw’n addas at y diben ac yn gamarweiniol i ddefnyddwyr data Cymru.

amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol sy’n seiliedig ar 2018

amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol sy’n seiliedig ar 2018

amcanestyniadau aelwydydd awdurdodau lleol sy’n seiliedig ar 2018

Mae hyn yn cynnwys tynnu’r setiau data perthnasol oddi ar StatsCymru.

Byddwn yn darparu rhagor o fanylion am ein cynlluniau i ddisodli’r cynnyrch ystadegol hyn cyn gynted â phosibl.

Os ydych yn defnyddio unrhyw rai o’r cynnyrch ystadegol hyn ar hyn o bryd, ac os hoffech gael cyngor pellach, cysylltwch â ni ar ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru.

## Amcangyfrifon o’r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2019

Cyhoeddwyd amcangyfrifon canol blwyddyn 2019 o'r boblogaeth ar gyfer gwledydd y DU ar 6 Mai 2020 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Er mwyn helpu gyda'r dadansoddiad o effeithiau pandemig y coronafeirws ar boblogaeth y DU, mae ONS wedi cyhoeddi set dros dro o amcangyfrifon y boblogaeth ar gyfer canol 2019. Mae'r adroddiad hwn o reidrwydd yn is-set o'r wybodaeth y mae’n ei chyhoeddi yn

rheolaidd ym mis Mehefin, gan ganolbwyntio'n bennaf ar faint, strwythur oedran a daearyddiaeth poblogaeth y DU.

Bydd gwybodaeth am gydrannau (ysgogwyr) newid yn y boblogaeth ym mhob ardal leol yn cael ei chyhoeddi ym mis Mehefin.

Mae unrhyw newidiadau i'r amcangyfrifon ynghylch y boblogaeth rhwng nawr a mis Mehefin yn debygol o fod yn fach, ond mae'n bosibl y bydd yr amcangyfrifon a gyhoeddir ym mis Mehefin 2020 ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddir yma.

Yr amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth 2019 oedd 3,153,000; cynnydd o 0.5 y cant (14,200) ar amcangyfrif canol 2018. Amcangyfrifwyd bod mwy o bobl 65 oed a throsodd yn byw yng Nghymru (662,000) na phlant 0 i 15 oed (564,000).

Roedd pobl 65 oed neu'n hŷn yn cyfrif am ychydig dros un rhan o bump (21%) o gyfanswm y boblogaeth yng Nghymru yng nghanol 2019, y gyfran uchaf o holl wledydd y DU.

Amcangyfrif canol blwyddyn 2019 o boblogaeth y DU (Saesneg yn unig) oedd 66,797,000; cynnydd o 0.5 y cant o'i gymharu ag amcangyfrif canol 2018 (mae'r gyfradd twf hon ar ei hisaf ers canol 2004).

Mae data ar gael yn ôl ardal weinyddol, blwyddyn unigol oedran a rhyw

## Ystadegau'r Gofrestr Etholiadol 2019

Cyhoeddwyd Ystadegau Etholiadol ar gyfer y DU: 2019 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 22 Mai 2020. Mae'n rhoi data ar bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau seneddol ac etholiadau Llywodraeth Leol fel y'u cofnodwyd yn y cofrestri etholiadol a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr 2019 (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Cyfanswm nifer yr etholwyr seneddol yng Nghymru yw 2,313,900; cynnydd o 3.8% rhwng 2018 a 2019.

Cyfanswm nifer yr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru yw 2,349,400; cynnydd o 3.7% rhwng 2018 a 2019.

Gwnaeth cyfanswm nifer etholwyr Seneddol y DU gynyddu 1,299,100 (2.8%) rhwng Rhagfyr 2018 a Rhagfyr 2019.

## Mudo rhyngwladol hirdymor

Ar 21 Mai, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ei adroddiad chwarterol ystadegau mudo, MSQR, (Saesneg yn unig) ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben Rhagfyr 2019. Mae'n dwyn ynghyd ystadegau ar fudo a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yn y cyhoeddiad, mae'r SYG hefyd wedi cynnig cipolwg o batrymau teithio diweddar yn y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020 mewn ymateb i'r newidiadau mewn patrymau teithio rhyngwladol oherwydd y pandemig y coronafeirws. Fodd bynnag, mae hyn yn

cynrychioli pob symudiad teithio ac nid mudwyr rhyngwladol yn unig. Ar 21 Mai cyhoeddodd y Swyddfa Gartref rywfaint o wybodaeth am gyrraedd teithwyr yn ddiweddar, ac yna ar 28 Mai 2020 adroddiad ystadegol ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd Ebrill 2020.

Mae'r SYG wedi diwygio ei ddull o drawsnewid ystadegau mudo eleni oherwydd y sefyllfa bresennol o amgylch y coronafeirws (COVID-19).

Mae'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS), sy'n sail i'r ystadegau mudo rhyngwladol presennol, wedi'i atal. Mae'r data IPS diweddaraf sydd ar gael yn ymdrin â mwyafrif helaeth y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2020. Mae disgwyl iddynt ei gyhoeddi yn MSQR mis Awst. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw ddata IPS newydd ar gael i'w gynnwys yn MSQR Tachwedd 2020. O fis Tachwedd 2020 ymlaen, mae'r SYG yn bwriadu symud i ffwrdd o'r IPS a defnyddio data gweinyddol i ddarparu mesurau mudo newydd. MSQR Awst fydd y set olaf o ystadegau mudo yn seiliedig ar ddata IPS.

## Y Gymraeg

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith wedi cael ei ohirio oherwydd y coronafeirws yng nghanol mis Mawrth 2020. Bwriedir i'r arolwg redeg o Orffennaf 2019 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Dosbarthwyd yr arolwg i siaradwyr Cymraeg  a gafodd eu darganfod drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r Arolwg Cenedlaethol bellach yn cael ei weinyddu dros y ffôn. Felly, cytunwyd i ohirio'r Arolwg Defnydd Iaith. Bydd y data a gasglwyd yn ystod naw mis cyntaf y gwaith maes yn parhau i gael ei ddadansoddi ac rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canlyniadau ar lefel Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar 31 Mawrth, cyhoeddwyd Canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth am y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn Ionawr 2019 i Ragfyr 2019

Ar 28 Ebrill, cyhoeddwyd adroddiad yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 ar Ble a phryd y mae pobl yn dysgu'r Gymraeg

## Cyswllt

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru